Julie James AC / AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1297805

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Gorffennaf 2019

Annwyl Russell,

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau –
Prynu Gorfodol

Hoffwn ddiolch i aelodau Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau am eu hadroddiad ar brynu gorfodol. Rwy'n arbennig o falch o weld bod argymhellion y pwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau presennol a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod pwerau prynu gorfodol yn offeryn pwysig i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus ei ddefnyddio er mwyn caffael y tir sydd ei angen i sicrhau newid amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Os ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd gywir, gallant gyfrannu at adnewyddu cymunedau mewn modd effeithiol ac effeithlon a'u gwneud yn fannau bywiog, yn ogystal â hyrwyddo busnes – gan arwain at ansawdd bywyd gwell.

Un o amcanion Llywodraeth Cymru yw cynyddu hyder a dealltwriaeth ymhlith awdurdodau lleol mewn perthynas â'r gyfundrefn prynu gorfodol yng Nghymru, i dynnu'r rhwystrau sy'n eu hatal nhw rhag defnyddio pwerau prynu gorfodol. Rydym hefyd yn ystyried y ffordd orau o ddod ag arbenigwyr yn y maes hwn at ei gilydd i ddarparu gwasanaeth hyfyw y gall pob awdurdod lleol ei ddefnyddio.

Rwyf wedi amlinellu ein hymateb i argymhellion unigol yr adroddiad yn atodiad y llythyr hwn.

Yn gywir

Julie James

Julie James AC / AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Prynu Gorfodol

Argymhelliad y Pwyllgor	Ymateb Llywodraeth Cymru	Sylwadau	Amserlen Gyflawni	Goblygiadau Ariannol
Argymhelliad 1 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag amrediad eang o ddefnyddwyr i sicrhau bod ei Chylchlythyr diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol sydd ar y gweill yn rhoi arweiniad clir i bawb y mae'n bosibl y byddant yn defnyddio neu apelio yn erbyn gorchymyn prynu gorfodol.	Derbyn	Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori a thrafod yn helaeth ynghylch cylchlythyr diwygiedig drafft ar orchmynion prynu gorfodol. Targedir y rhanddeiliaid canlynol, ymhlith eraill: Awdurdodau lleol, busnesau a chyrff arbenigol – gan gynnwys y Gymdeithas Prynu Gorfodol, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Sustrans, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru a chynrychiolwyr tirfeddianwyr.	Bydd ymgynghori ar Gylchlythyr diwygiedig drafft Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn dechrau yn hydref 2019.	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.
Argymhelliad 2 Dylai Cylchlythyr diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol roi arweiniad clir i awdurdodau lleol ynghylch manteision y broses prynu gorfodol, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'w defnyddio'n offeryn pwysig ar gyfer datrys problemau sy'n gysylltiedig ag adeiladau a thir nad ydynt yn cael eu defnyddio a rhwystrau rhag datblygu seilwaith. Dylai'r cylchlythyr herio canfyddiadau negyddol ynghylch y broses prynu gorfodol mewn modd gweithredol, a chyfeirio awdurdodau lleol at ffynonellau cyngor a chymorth i	Derbyn	Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys yn ei Chylchlythyr diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol ganllawiau clir a chyfredol ar y pwerau prynu gorfodol sydd ar gael i awdurdodau lleol a'r materion y mae'n rhaid iddynt eu hystyried wrth iddynt gyfiawnhau defnyddio eu pwerau statudol er budd y cyhoedd. Bydd y Cylchlythyr diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol hefyd yn cynnwys enghreifftiau o'r arferion gorau ar gyfer gwneud Gorchmynion Prynu Gorfodol, a thempledi wedi'u diweddaru ar gyfer drafftio gorchmynion prynu	Bydd ymgynghori ar Gylchlythyr diwygiedig drafft Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn dechrau yn hydref 2019.	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

gynyddu hyder cynghorwyr a swyddogion wrth ei defnyddio fel opsiwn.		Gorfodol y bydd Awdurdodau Lleol yn cael eu hannog i'w defnyddio.		
<u>Argymhelliad 3</u> Dylai Llywodraeth Cymru efelychu gwasanaeth Llywodraeth yr Alban ar gyfer gwirio gorchmynion prynu gorfodol drafft ymlaen llaw, drwy sefydlu uned fach o arbenigwyr o fewn Llywodraeth Cymru i gynnal gwiriadau technegol uwch, amserol, cyn cyflwyno gorchymyn prynu gorfodol. Dylai'r gwasanaeth gael ei sefydlu mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn effeithiol wrth symleiddio'r broses i awdurdodau gaffael gyflwyno gorchmynion prynu gorfodol i Lywodraeth Cymru i'w cadarnhau. Dylai fod yn hollol ar wahân i unrhyw swyddogaeth ar gyfer rhoi cyngor, i osgoi unrhyw ganfyddiadau gan y cyhoedd ei fod yn dylanwadu ar y broses ar gyfer cadarnhau gorchmynion prynu gorfodol.	Derbyn mewn egwyddor	Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar brynu gorfodol (*Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 14/2004: Cylchlythyr diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol)* yn nodi y caiff awdurdodau caffael ofyn i Weinidogion Cymru gynnal archwiliad technegol o'u gorchmynion prynu gorfodol drafft. Bydd Cylchlythyr diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn atgyfnerthu'r cyngor hwn a gaiff ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau caffael yn ymwybodol o'r gwasanaeth adeg drafftio eu Gorchmynion Prynu Gorfodol. Bydd swyddogion yn ystyried sut y gellir gwella gwasanaeth archwiliadau technegol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys creu canllawiau trefniadol i awdurdodau caffael ar sut y dylent gyflwyno gorchmynion prynu gorfodol drafft i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad technegol a pha faterion fydd yn cael eu hystyried.	Bydd swyddogion yn cyflwyno opsiynau i'r Gweinidog ar gyfer gwella gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal archwiliadau technegol erbyn mis Mawrth 2020, er mwyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud.	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.
<u>Argymhelliad 4</u> Os oes anghydfod, dylai Llywodraeth Cymru annog y ddwy ochr i drafod i ddatrys yr anghydfod, er mwyn ceisio osgoi'r posibilrwydd o daith gostus drwy'r system gyfreithiol.	Derbyn	Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar brynu gorfodol *(Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 14/2004: Cylchlythyr diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol)* yn annog awdurdodau caffael i ystyried cynnig mynediad llawn at ddulliau amgen ar gyfer datrys	Bydd ymgynghori ar Gylchlythyr diwygiedig drafft Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn dechrau yn hydref	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

		anghydfodau i'r rhai sydd â phryderon ynghylch gorchymyn prynu gorfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall dulliau amgen ar gyfer datrys anghydfodau arbed amser ac arian ar gyfer y ddau barti sy'n gysylltiedig â gorchymyn prynu gorfodol, ac mae'r amser cymharol fach y maent yn ei gymryd a'u hanffurfioldeb yn gallu lleihau'r pwysau a all fod ar bawb sy'n gysylltiedig â'r broses. Bydd y Cylchlythyr diwygiedig ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn cynnwys cyngor gwell ar fanteision defnyddio dulliau amgen ar gyfer datrys anghydfodau. Mae swyddogion yn trafod â gwasanaeth datrys anghydfodau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, ynghylch gwelliannau i'r dulliau amgen maent yn eu darparu ar gyfer datrys anghydfodau ynghylch iawndal sy'n gysylltiedig â gorchmynion prynu gorfodol.	2019.	
<u>Argymhelliad 5</u> Yn ogystal â chyhoeddi ei Chylchlythyr diwygiedig, dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i hyrwyddo mesurau eraill yn weithredol, fel canllawiau manwl, hyfforddiant a seminarau, i wella hyder a dealltwriaeth ymhlith awdurdodau lleol, a chwalu mythau ynghylch y broses prynu gorfodol.	Derbyn	Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella hyder a dealltwriaeth ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â'r gyfundrefn prynu gorfodol yng Nghymru, i dynnu'r rhwystrau sy'n eu hatal nhw rhag defnyddio eu pwerau prynu gorfodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd swyddogion yn llunio Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol, i roi	Bydd proses gaffael yn cael ei chynnal i benodi gwasanaethau arbenigol i arwain y gwaith o ddatblygu'r Llawlyfr ar Orchmynion Prynu Gorfodol, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

		canllawiau technegol manwl, cam wrth gam ar gyfer awdurdodau caffael ar y broses ar gyfer gwneud gorchymyn prynu gorfodol. Ystyrir hefyd ddarparu rhaglen hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r llawlyfr.	Mawrth 2020.	
Argymhelliad 6 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddod o hyd i ffyrdd o gael gwared ar rwystrau rhag defnyddio gorchmynion prynu gorfodol i greu llwybrau beicio. Dylai hyn gynnwys a) diweddaru canllawiau ar deithio llesol i bwysleisio manteision dewis y llwybr mwyaf priodol drwy ddefnyddio pwerau prynu gorfodol, yn hytrach nag opsiwn arall israddol, a b) defnyddio gweithgareddau i gynyddu hyder o fewn awdurdodau lleol ynghylch defnyddio gorchmynion prynu gorfodol i ddatblygu llwybrau cerdded a beicio, ac i rannu arbenigedd a'r arferion gorau.	Derbyn	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i nodi ac i leihau rhwystrau rhag defnyddio pwerau prynu gorfodol i greu llwybrau cerdded a beicio. Bydd y Canllawiau Statudol sy'n ategu'r Ddeddf Teithio Llesol yn nodi y dylai gorchmynion prynu gorfodol gael eu defnyddio lle maent yn cynnig y ffordd orau o sicrhau'r llwybr mwyaf priodol. Bydd Cylchlythyr diwygiedig Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol hefyd yn cynnwys canllawiau gwell ar orchmynion prynu gorfodol a wneir er mwyn prynu tir at ddibenion hwyluso llwybrau teithio llesol ac asesu cynigion eraill.	Mae'r canllawiau statudol ar deithio llesol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bwriedir cynnal ymgynghoriad yn hydref 2019. Bydd ymgynghori ar Gylchlythyr diwygiedig drafft Llywodraeth Cymru ar Orchmynion Prynu Gorfodol yn dechrau yn hydref 2019.	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni
Argymhelliad 7 Dylid sefydlu uned ganolog yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd i weithredu fel adnodd a rennir sy'n cynnwys arbenigwyr ar orchmynion prynu gorfodol ar gyfer awdurdodau caffael, yn enwedig awdurdodau lleol. Dylai ddarparu cyngor, mentora a chymorth ar gyfer awdurdodau caffael. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw hyn yn golygu cryfhau'r arbenigedd	Derbyn mewn egwyddor	Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mewn egwyddor greu Is-adran Tir Sector Cyhoeddus i fodloni anghenion awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Disgwylir y gallai'r is-adran ddarparu mecanwaith ar gyfer rhannu arbenigedd a nodi'r arferion gorau i fynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau yn y sector cyhoeddus sy'n rhwystro'r gwaith o ddatblygu tir cyhoeddus er budd y	Yn parhau – bydd cylch gwaith yr Is-adran Tir Sector Cyhoeddus yn esblygu dros y misoedd nesaf. Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau	Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

presennol o fewn y gwasanaeth sifil (ar wahân i'r rhai sy'n gyfrifol am gadarnhau gorchmynion prynu gorfodol neu gynnal unrhyw wiriad technegol) neu sefydlu uned ar wahân o fewn llywodraeth leol, ac amlinellu'n glir ei sail resymegol ar gyfer y dull a ddefnyddir.		cyhoedd. Mae'r bwlch mewn sgiliau'n cynnwys: prynu gorfodol, caffael tir a chyflawni prosiectau. Bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) hefyd yn darparu mecanwaith i awdurdodau lleol weithio ar y cyd ar lefel ranbarthol – y cyfeirir ato ar hyn o bryd fel Cyd-bwyllgorau Statudol. Gallai Cyd-bwyllgor Statudol ddarparu mecanwaith i awdurdodau lleol rannu eu swyddogaethau, eu hadnoddau, eu capasiti a'u harbenigedd ar lefel ranbarthol i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau mewn meysydd polisi penodol.	(Cymru) yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Hydref 2019.	